**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (LLANGOLLEN A CHORWEN, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn ar sail diogelwch er mwyn caniatáu i gydrannau fferm wynt, sy'n llwythi anwahanadwy annormal (fel y diffinnir "abnormal indivisible loads" yng Ngorchymyn Cerbydau Ffyrdd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003 ("Gorchymyn 2003")), gael eu cludo'n ddiogel ar hyd cefnffordd yr A5.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros, llwytho a dadlwytho, dros dro, ar y darnau o gefnffordd yr A5 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Dim ond am gyfnodau byr y bydd y gwaharddiad hwn, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, mewn grym, a hynny ar yr adegau pan fydd llwythi anwahanadwy annormal yn cael eu cludo.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 25 Ebrill 2022 a dim ond yn achlysurol y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio, am gyfnodau byr tra bo'r heddlu yn hebrwng llwythi anwahanadwy annormal trwy Langollen a Chorwen. Felly disgwylir i'r gwaharddiad dros dro fod yn weithredol yn ysbeidiol o 00:01 o'r gloch ar 25 Ebrill 2022 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darnau o ddwy ochr cefnffordd yr A5 o'r enw Berwyn Road, Llangollen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn tua'r gorllewin o bwynt 43 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol y Farchnad am bellter o 215 o fetrau.

**THE A5 TRUNK ROAD (LLANGOLLEN AND CORWEN, DENBIGHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF WAITING, LOADING & UNLOADING) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is required on safety grounds to permit the safe transportation of wind farm components that comprise abnormal indivisible loads (AIL) (as defined in the Road Vehicle (Authorisation of Special Types) (General) Order 2003 ("the 2003 Order") along the A5 trunk road.

The effect of the Order is to temporarily prohibit waiting, loading and unloading on the lengths of the A5 trunk road described in the Schedule to this Notice. This prohibition will only be in force for short periods of time during times of AIL transportation and will be signed accordingly.

The Order comes into force on 25 April 2022 and is only intended to be used occasionally for short periods of time whilst the Police escort AIL through Llangollen and Corwen. The temporary prohibition is therefore expected to operate on an intermittent basis from 00:01 hours on 25 April 2022 for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE**

The lengths of both sides of the A5 trunk road known as Berwyn Road, Llangollen, Denbighshire that extends westwards from a point 43 metres west of the centre-point of its junction with Market Street for a distance of 215 metres.

Ochr ddeheuol y darn o gefnffordd yr A5 o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

The southern side of the length of the A5 trunk road known as London Road, Corwen, Denbighshire that extends from a point 27 metres west of the centre-point of its junction with the lane leading to Brookside Cottages to a point 50 metres west of that junction.

Ochr ddeheuol y darn o gefnffordd yr A5 o'r enw Heol Llundain, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 95 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 128 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

The southern side of the length of the A5 trunk road known as London Road, Corwen, Denbighshire that extends from a point 95 metres west of the centre-point of its junction with the lane leading to Brookside Cottages to a point 128 metres west of that junction.

Ochr ddeheuol y darn o gefnffordd yr A5 o'r enw Stryd y Bont, Corwen, Sir Ddinbych sy'n ymestyn o bwynt 138 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Lôn Las hyd at bwynt 197 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

The southern side of the length of the A5 trunk road known as Bridge Street, Corwen, Denbighshire that extends from a point 138 metres west of the centre-point of its junction with Green Lane to a point 197 metres west of that junction.